Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Rhoi Esgyrn

Rydym yn cynnal 'Banc Esgyrn' ar hyn o bryd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae hyn yn caniatáu ni i ddefnyddio esgyrn a gymerwyd oddi ar gleifion yn ystod llawdriniaethau i osod clun newydd i helpu cleifion eraill sy'n cael llawdriniaethau orthopedig mwy cymhleth.

Yn ystod llawdriniaeth i osod cymal newydd, mae'r asgwrn sy'n cael ei dynnu i alluogi'r cymal newydd i gael ei osod yn ei le yn cael ei daflu fel arfer. Trwy'r banc esgyrn gallwn storio'r asgwrn hwn a'i ddefnyddio ar gyfer cleifion sydd ei angen.

**Ar gyfer beth mae'r asgwrn yn cael ei ddefnyddio?**

Gan amlaf defnyddir yr asgwrn i ategu asgwrn y claf, i annog twf asgwrn newydd trwy lenwi'r bwlch a geir pan fydd asgwrn heintiedig yn cael ei dynnu. Er enghraifft, plant sydd angen llawdriniaethau i gywiro anffurfiadau yn eu hasgwrn cefn, rhai mathau o lawdriniaethau clun a sblintio neu lenwi toriadau nad ydynt wedi gwella.

Mae prinder esgyrn i helpu'r bobl hyn, ac felly rydym yn gofyn i chi roi asgwrn.

**Beth yw'r meini prawf ar gyfer rhoi asgwrn?**

Os hoffech chi roi'ch asgwrn yn ystod eich llawdriniaeth i osod clun newydd, bydd angen i ni ofyn rhai cwestiynau i chi am eich iechyd, teithiau ac arferion rhywiol, mae'n bwysig eich bod yn ateb y cwestiynau hyn yn agored ac yn onest. Mae rhai heintiau a chlefydau yn golygu na allwn dderbyn pob asgwrn a gynigir.

**Beth mae rhoi asgwrn yn ei olygu?**

Bydd nyrs sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig yn esbonio'r broses rhoi esgyrn ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd hi'n gofyn cwestiynau i chi a bydd rhai ohonyn nhw o natur sensitif. Efallai nad yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn berthnasol i chi na'ch cefndir cymdeithasol neu feddygol, ond mae'n rhaid i ni eu gofyn at ddibenion profi.

Os byddwch yn dal i gael eich ystyried yn addas ar gyfer rhoi esgyrn ar ôl ateb y cwestiynau, byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Mae hyn yn golygu eich bod yn cytuno i roi esgyrn ac i gael y profion sgrinio cysylltiedig.

Pan fyddwn wedi derbyn eich caniatâd, byddwn yn gofyn i chi gael prawf gwaed. Gwneir hyn ar yr un pryd â'ch ymchwiliadau sgrinio cyn llawdriniaeth arferol.

Mae hwn yn brawf ar gyfer Hepatitis B & C, Syffilis, HIV (y firws sy'n achosi AIDS) a HTLV (feirws lewcemia celloedd T dynol).

Os bydd unrhyw un o'r profion hyn yn dangos unrhyw annormaledd, byddwn yn cysylltu â chi ac yn eich cyfeirio ar gyfer ymchwiliadau pellach, cwnsela a thriniaeth.

**Bydd angen i ni gymryd sampl gwaed arall chwe mis ar ôl eich llawdriniaeth**

i sicrhau bod eich gwaed yn parhau i fod yn rhydd o unrhyw heintiau. Bydd y Tîm Banc Esgyrn yn cysylltu â chi i roi gwybod sut i gael y profion hyn ond efallai y bydd angen i chi fynd at eich meddyg teulu neu i glinig. Mae'n bwysig cael y profion pellach hyn gan na allwn ddefnyddio'ch asgwrn hebddynt.

**Beth fydd yn digwydd i fy rhodd esgyrn?**

Bydd eich rhodd asgwrn yn cael ei gadw mewn storfa wedi'i rewi, hyd nes y bydd yr holl ganlyniadau prawf angenrheidiol wedi'u gwirio, cyn iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer triniaeth claf.

Weithiau efallai na fydd eich asgwrn yn addas ar gyfer trin cleifion, ac os felly bydd yn cael ei waredu mewn modd cyfreithlon.

Weithiau gall eich asgwrn gael ei drosglwyddo i gwmni sy'n dosbarthu meinwe dynol am gost nad yw'n gwneud elw.

**Ni ddylech ystyried rhoi asgwrn os: -**

- os oes gennych y firws HIV neu AIDS neu rydych yn meddwl bod angen prawf arnoch ar gyfer y naill neu'r llall
- os ydych yn cario firws hepatitis B neu C neu'n meddwl bod angen prawf arnoch ar gyfer y naill neu'r llall
- os ydych erioed wedi cael Syffilis neu HTLV
- os ydych wedi chwistrellu neu wedi derbyn chwistrelliad o gyffuriau anghyfreithlon neu gyffuriau nad ydynt ar bresgripsiwn, gan gynnwys cyffuriau adeiladu'r corff neu ddeunydd chwistrelladwy ar gyfer lliw haul.
- os oes gennych hemoffilia neu anhwylder gwaedu tebyg a'ch bod wedi derbyn ffactor crynodedig.

**Ni ddylech ystyried rhoi asgwrn am o leiaf 3 mis os : -**

- os oes gennych ddiagnosis diweddar o glefyd bacteriol a drosglwyddir yn rhywiol

- os ydych wedi defnyddio cyffuriau yn ystod rhyw (nid yw hyn yn cynnwys cyffuriau camweithredu ymgodol a chanabis)
- os ydych ar feddyginiaeth ailbennu rhywedd
- os ydych wedi cymryd proffylacsis cyn neu ar ôl dod i gysylltiad â HIV (PREP) i atal HIV
- os ydych wedi cael rhyw yr anws gyda phartner newydd, neu wedi cael rhyw gyda mwy nag un partner ac wedi cael rhyw yr anws
- os ydych wedi derbyn arian neu gyffuriau yn gyfnewid am ryw.

**Ni ddylech ystyried rhoi asgwrn am o leiaf 3 mis ar ôl cael rhyw gyda: -**

- rhywun yr ydych yn gwybod sy'n HIV positif neu'n hepatitis B, C, Syffilis neu HTLV positif
- dyn sydd wedi cael rhyw gyda dyn arall (Menywod). Dyn arall (Dynion).
- partner sydd erioed wedi derbyn arian neu gyffuriau yn gyfnewid am ryw
- partner sydd wedi chwistrellu cyffuriau
- Partner sydd â Hemoffilia neu anhwylder gwaedu tebyg ac wedi derbyn dwysfwyd factor crynodedig.

**A oes rheidrwydd arnaf i roi fy asgwrn?**

Na, nid ydych dan unrhyw reidrwydd o gwbl i gydsynio i roi eich asgwrn. Ni fydd y penderfyniad i roi neu beidio rhoi yn effeithio ar eich llawdriniaeth mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, gall caniatáu i'ch asgwrn gael ei ddefnyddio ar gyfer trawsblannu wneud gwahaniaeth sylweddol i lawdriniaeth rhywun arall.

**Diogelu Data**

Mae Banc Esgyrn ABUHB yn cadw cofnod o wybodaeth am roddwyr ar gronfa ddata ddiogel. Defnyddir y gronfa ddata hon i gofnodi holl fanylion y rhoddion. Mae'n ofynnol i ni gadw'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau y gellir olrhain rhoddion. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Gellir defnyddio'r wybodaeth hefyd ar gyfer archwilio, i asesu a gwella ansawdd ein gwasanaeth. Mae'r holl wybodaeth a data a brosesir gan y banc esgyrn yn digwydd yn unol â chyfraith diogelu data. Mae'n ofynnol i ni gadw ein cofnodion am o leiaf 30 mlynedd.

**Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglyn â rhoi esgyrn, cysylltwch â'r ysbyty perthnasol ar gyfer y Banc Esgyrn ar y rhif canlynol:-

Ysbyty Brenhinol Gwent -01633 -238082

**Diolch i chi am eich amser.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**
**This document is available in English**